

## Diarhebion 22:17-29

### 'LLAWN CYNGOR A DEALL'

Mae newid cywair yma. O 22:17 i 24:22 ceir eto ddiarhebion craff ac ergydiol, ond maent ychydig yn fwy estynedig na'r rhai cwta rhwng 10:1 a 22:16. Mae peth tebygrwydd rhyngddynt a chasgliad o ddiarhebion o'r Aifft, sef *Dysgeidiaeth Amenemope*, ond un o'r pethau sy'n gosod yr adran hon ar wahân yw'r cyfeiriadau penodol at Dduw fel yr Un sydd ag awdurdod dros bawb. Byd Duw yw hwn, medd y llyfr yma, ac i gael bywyd cyflawn rhaid bod mewn perthynas iach ag ef.

### Gobaith

Rhan o nod y 'doethion' (17), felly, yw arwain y darllenwyr i gael gobaith a hyder yn y Duw hwn (19). Mae'r llyfr yn gwbl onest ynghylch y natur ddynol, a'r holl ofid a helynt a ddaw yn ei sgil. Nid oes lle i obeithio mewn pobl, mae'n amlwg, ond mae'r gobaith a'r hyder sy'n ganlyniad i ymddiried yn Nuw yn rhoi gwedd wahanol ar fywyd. Yn wir, pwysleisia'r llyfr mai dyma'r unig ffordd ddiogel i wynebu bywyd ar y ddaear a pharatoi ar gyfer bywyd yn y nefoedd. Gweler 3:5-8.

### Gwirionedd

Nid gobaith disylwedd sydd yma - nid 'gobeithio'r gorau' a fawr ddim mwy. Sail y gobaith, a sail bywyd y Cristion yn y byd hwn yn gyffredinol, yw 'gwirionedd geiriau cywir' (21). Ble mae cael y gwirionedd hollbwysig hwn? Cawn yr ateb yn Ioan 17:17. A sut mae gweithredu'r gwirionedd? Cyflwynir cyngor ymarferol yn yr adnodau sydd dan sylw:

Yn gyntaf, dylid parchu a gofalu am y tlodion, yn enwedig o gofio consŷrn Duw ei hun amdanynt (22-23).

Yn ail, mae'n bwysig ystyried pwy yw ein cyfeillion, gan wneud ymdrech fwriadol i osgoi dylanwadau drwg (24-25).

Yn drydydd, rhaid gwylio rhag ymrwymo i gytundebau ffôl ac anghyfrifol (26-27).

Yn bedwerydd, mae angen ymwrthod â'r math o drachwant sy'n barod i dwyllo er mwyn ennill mantais dros eraill (28; cymharer 23:10-11). Ceir yma hefyd rybudd rhag wfftio'n ddifeddwl hen draddodiadau, yn enwedig y rhai a ordeiniwyd gan Dduw.

Ac yn olaf, dylid anelu at weithio'n galed a chydwybodol, er mwyn i'n gwaith fod yn dystiolaeth i'n gobaith ac i'r gwirionedd sy'n sail iddo (29).